**Sesiwn 2000-2001 Rhif 06**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 24 MAI 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler –** Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg cyn 16 oed (15 munud) Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Christine Gwyther –** Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Dadl ar ryddhau organebau a addaswyd yn enetig yng Nghymru**
Polisi cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r swyddogaethau a drosglwyddwyd iddo o dan adran 111 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd i ryddhau organebau a addaswyd yn enetig i Amgylchedd Cymru, yw peidio â rhoi caniatâd o'r fath oni bai fod gwybodaeth ddigonol ar gael i'r Cynulliad i'w alluogi i ddod i gasgliad yn hyderus na fydd rhyddhau organebau o'r fath yn gwneud drwg i amgylchedd Cymru drwy niweidio iechyd pobl neu organebau byw eraill neu ymyrryd â'u systemau ecolegol.

Er hynny, bydd y Cynulliad yn ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law ynghylch a ddylai roi caniatâd mewn achos penodol, hyd yn oed os nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael.

Yn ogystal, bydd y Cynulliad yn cymryd sylw o'r polisi cyffredinol uchod mewn perthynas â'r weithdrefn ganiatâd wedi'i symleiddio sydd eisoes yn bodoli, o dan Adran 111 pan fo person sydd wedi cael caniatâd o'r fath yn dymuno ychwanegu safle yng Nghymru at raglen o waith datblygu.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**
O'r paragraff cyntaf, dileer y geiriau "na fydd", a rhodder "bod" yn eu lle, a dileer "yn gwneud drwg i amgylchedd Cymru drwy niweidio iechyd pobl neu organebau byw eraill neu ymyrryd â'u systemau ecolegol" a rhodder "yn ddiogel i iechyd pobl a'r amgylchedd" yn eu lle.

O’r ail baragraff, dileer ", hyd yn oed os nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael."

**Dadl Fer:** (i ddechrau erbyn 5pm)
**Brian Hancock (Islwyn); Is-Swyddfeydd Post**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

***Toriad Sulgwyn 29 Mai - 2 Mehefin 2000***

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**